O F F E R Y N N A U S T A T U D O L C Y M R U

2026 Rhif 45

Gorchymyn Cefnffordd yr A48 (Cylchfan Cross Hands i Gylchfan Pont Abraham, Cwmgwili, Sir Gaerfyrddin) (Dileu Cyfyngiadau) 2026

Gwnaed	*12 Chwefror 2026*
Yn dod i rym	*17 Chwefror 2026*

W E L S H S T A T U T O R Y I N S T R U M E N T S

2026 No. 45

The A48 Trunk Road (Cross Hands Roundabout to Pont Abraham Roundabout, Cwmgwili, Carmarthenshire) (Derestriction) Order 2026

Made	*12 February 2026*
Coming into force	*17 February 2026*

£8.90

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L C Y M R U

2026 Rhif 45

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A48 (Cylchfan Cross Hands i Gylchfan Pont Abraham, Cwmgwili, Sir Gaerfyrddin) (Dileu Cyfyngiadau) 2026

Gwnaed	*12 Chwefror 2026*
Yn dod i rym	*17 Chwefror 2026*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A48, a thrwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 82(2) a 83(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi hysbysiad cyhoeddus o'u bwriad i wneud y Gorchymyn hwn yn unol ag adran 83(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A48 (Cylchfan Cross Hands i Gylchfan Pont Abraham, Cwmgwili, Sir Gaerfyrddin) (Dileu Cyfyngiadau) 2026 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 17 Chwefror 2026.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A48 Llundain i Abergwaun.

Dileu Cyfyngiadau

3. Bydd y darnau hynny o gefnffordd yr A48 sy'n ymestyn o Gylchfan Cross Hands i Gylchfan Pont Abraham, Cwmgwili, Sir Gaerfyrddin, fel y'u pennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn, yn peidio â bod yn ffordd gyfyngedig at ddibenion adran 81 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

(**1**) 1984 p. 27. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
12 Chwefror 2026
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

Y darn o gerbytffordd tua'r gogledd a cherbytffordd tua'r de cefnffordd yr A48 sy'n ymestyn o bwynt a leolir 632 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd â Heol y Deri, Cwmgwili, hyd at bwynt a leolir 213 o fetrau i'r de o'r gyffordd honno.

© Hawlfraint y Goron 2026

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru.

2026 No. 45

ROAD TRAFFIC, WALES

The A48 Trunk Road (Cross Hands Roundabout to Pont Abraham Roundabout, Cwmgwili, Carmarthenshire) (Derestriction) Order 2026

Made	*12 February 2026*
Coming into force	*17 February 2026*

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A48 trunk road, and in exercise of the powers conferred upon them by sections 82(2) and 83(1) of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**), make this Order.

The Welsh Ministers have given public notice of their intention to make this Order in accordance with section 83(1) of the Road Traffic Regulation Act 1984.

Title and commencement

1. The title of this Order is the A48 Trunk Road (Cross Hands Roundabout to Pont Abraham Roundabout, Cwmgwili, Carmarthenshire) (Derestriction) Order 2026 and this Order comes into force on 17 February 2026.

Interpretation

2. In this Order—

"the trunk road" ("*y gefnffordd*") means the A48 London to Fishguard trunk road.

Derestriction

3. Those lengths of the A48 trunk road that extend from Cross Hands Roundabout to Pont Abraham Roundabout, Cwmgwili, Carmarthenshire, as specified in the Schedule to this Order, shall cease to be a restricted road for the purposes of section 81 of the Road Traffic Regulation Act 1984.

(**1**) 1984 c. 27. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

Signed on behalf of the Cabinet Secretary for Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Nicci Hunter
Business Team Leader
12 February 2026
Welsh Government

SCHEDULE

The length of the northbound and southbound carriageways of the A48 trunk road that extend from a point located 632 metres north of its junction with Heol Y Deri, Cwmgwili, to a point located 213 metres south of the said junction.

© Crown Copyright 2026

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Saul Nassé, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer for Wales.

tso
a Williams Lea company

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa), cwmni Williams Lea,
ac ar gael o:

Arlein
www.tsoshop.co.uk

Post, Ffôn ac E-bost
TSO
Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN
Archebionf ffôn/ Ymholiadau cyffredinol 0333 202 5070
E-bost: customer.services@tso.co.uk
Ffôn Testun: 0333 202 5077

Published by TSO (The Stationery Office), a Williams Lea company,
and available from:

Online
www.tsoshop.co.uk

Mail, Telephone & E-mail
TSO
PO Box 29, Norwich, NR3 1GN
Telephone orders/General enquiries: 0333 202 5070
E-mail: customer.services@tso.co.uk
Textphone: 0333 202 5077

ISBN 978-0-34-839815-1

9 780348 398151